BWLETIN

# MANTELL GWYNEDD

MAI 2025

MANTELL GWYNEDD

## WYTHNOS GWIRFODDOLWYR

## 2ail-8fed Mehefin 2025

**Dathlwch, Ysbrydolwch, Cymerwch Ran!**

Mae'r wythnos yn nodi amser arbennig ledled y D.U wrth i ni ddod ynghyd i ddathlu cyfraniad anhygoel gwirfoddolwyr yn ein cymunedau. P'un a ydyn nhw'n rhoi eu hamser bob wythnos neu o bryd i'w gilydd, mae gwirfoddolwyr yn gwneud gwahaniaeth enfawr a dyma ein cyfle i ddathlu a dweud diolch!

### Ymunwch â'r dathliad – Beth fyddwch chi'n ei wneud?

Dyma'ch cyfle i gymryd rhan. P'un a ydych chi eisoes yn wirfoddolwr neu'n fudiad sy'n cynnwys gwirfoddolwyr, mae digon o ffyrdd i gymryd rhan

✓ Cynnal digwyddiad gwerthfawrogiad
✓ Rhannwch eich stori wirfoddoli
✓ Anogwch eich tîm i wirfoddoli
✓ Hyrwyddo cyfleoedd yn eich ardal



### Adnoddau a Syniadau

Angen help i gynllunio eich gweithgareddau?
Mae gwefan Wythnos Gwirfoddolwyr yn llawn adnoddau am ddim, o dempledi a phosteri digwyddiadau, graffeg cyfryngau cymdeithasol a syniadau dathlu.
Ewch i: www.volunteersweek.org

Dewch i ni ddathlu gwirfoddoli, ysbrydoli eraill, a dweud **DIOLCH YN FAWR** i unigolion sy'n gwneud gwahaniaeth bob dydd.

01286 672 626
www.mantellgwynedd.com
ymholiadau@mantellgwynedd.com




Rhwydwaith
Gwirfoddoli a Llesiant
Gwynedd
Volunteering and
Well-being Network

# ‘Speed Dating’ 2025




Ymunwch gyda ni ar gyfer ein digwyddiad 'Speed Dating' blynyddol! Prif ffocws y digwyddiad yw codi ymwybyddiaeth o wasanaethau yng Ngwynedd. Dewch draw i hyrwyddo eich gwasanaethau a chreu cysylltiadau gyda sefydliadau newydd.

Join us for our annual 'Speed Dating' event! The main focus of the event is to raise awareness of services in Gwynedd. Come along to promote your services and make connections with new organisations.



10/06/2025
Clwb Pêl-droed Porthmadog Football Club
10am-2pm

Cofrestrwch erbyn
Register by
02/06/2025

gwirfoddoli@mantellgwynedd.com
01286 672 626

MANTELL GWYNEDD
CANOLFAN GWIRFODDOLI • VOLUNTEER CENTRE

WYTHNOS GWIRFODDOLWYR

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

## WYTHNOS GWIRFODDOLWYR

**2ail-8fed Fehefin**

**2025**

# CANOLFAN GWIRFODDOLI



## CYFLE NEWYDD

### CYNORTHWYWYR SIOP- CAERNARFON

**Ymunwch â ni yn ein siop newydd yng Nghaernarfon fel cynorthwyydd siop. Mae ein gwirfoddolwyr yn helpu i wneud gwahaniaeth enfawr i filoedd o bobl bob dydd trwy ein helpu i godi arian tuag at ymchwil o'r radd flaenaf.**

**Gallwch fod yn hyblyg ar ddiwrnodau neu oriau wedi'u rhannu dros ychydig ddyddiau os yw'n well gennych - mae digon o gyfleoedd i wirfoddoli o gyn lleied â 2 i 4 awr yr wythnos!**

**Mwy o wybodaeth:**
01286 672 626
gwirfoddoli@mantellgwynedd.com

ymchwil canser cymru
cancer research wales



## CYFLE NEWYDD

### CYFAILL CLEIFION YSBYTY GWYNEDD

**Rhannwch bot o de neu goffi dros sgwrs gydag unigolyn. Nid oes angen cefndir meddygol arnoch na'r holl atebion – dim ond calon garedig, clust i wrando, ac ychydig o amser i roi.**

- **Cynnig cysur emosiynol a sgwrs**
- **Helpu rhywun i fynegi'r hyn sydd bwysicaf iddyn nhw**
- **Rhannu gwybodaeth ddefnyddiol a ble i ddod o hyd i adnoddau lleol**
- **Cefnogi aelodau'r teulu neu ofalwyr, cyn ac ar ôl profedigaeth.**

**Mwy o wybodaeth:**
01286 672 626
gwirfoddoli@mantellgwynedd.com

Marie Curie

## *Interested in volunteering?*
## *Diddordeb mewn gwirfoddoli?*

Elusen Ambiwlans Awyr CYMRU WALES Air Ambulance Charity

*Bangor*

Find out how you can join our excellent team of **volunteers** at Wales Air Ambulance's store in Bangor.

We have a variety of roles available so why not join us on our open day to find out more:

**June 04, 10:00 AM - 1:00 PM**

*Unit 10, Menai Shopping Centre, Bangor, LL57 2RG*

Darganfyddwch sut gallwch chi ymuno â'n tim gwych o **wirfoddolwyr** yn siop Ambiwlans Awyr Cymru yn Bangor.

Mae amrywiaeth o rolau ar gael gennym, felly beth am ymuno â ni ar ein diwrnod agored i ddarganfod mwy:

**Mehefin 04, 10:00 yb – 1:00yp**

*Unit 10, Menai Shopping Centre, Bangor, LL57 2RG*




@volunteering@walesairambulance.com
@Walesairambulance
@air_ambulance

Yr Ysgwrn
Cartref Hedd Wyn
Home of Hedd Wyn

Yr Ysgwrn
Parc Cenedlaethol Eryri National Park

## Gwirfoddoli yn Yr Ysgwrn

**Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr i ymuno â thim yn Yr Ysgwrn!**
Oes gennych chi ychydig o oriau rhydd, yn rheolaidd neu bob hyn a hyn?
Ydach chi'n chwilio am gyfleoedd i gymdeithasu?
Hoffech chi gyfoethogi eich CV gyda sgiliau a phrofiadau newydd?



### Rolau gwirfoddoli:

- Gwirfoddolwyr Garddio – tasgau fel plannu, chwynnu, meithrin planhigion a chnydau tymhorol, gweithgareddau tymhorol amrywiol
- Gwirfoddolwyr Tywyswyr Ffermdy – arwain teithiau tywys yn y Ffermdy a rhannu straeon enwog Yr Ysgwrn (Cymraeg yn hanfodol a chroesewir siaradwyr Cymraeg newydd)
- Gwirfoddolwyr Siop Goffi – croesawu ymwelwyr, paratoi paneidiau a lluniaeth, gwerthu nwyddau o'r siop (Cymraeg yn hanfodol a chroesewir siaradwyr Cymraeg newydd)

### Buddion Gwirfoddoli:

- Cydweithio gyda chriw cyfeillgar mewn lleoliad difyr a bendigedig
- Datblygu sgiliau newydd a meithrin profiadau
- Hyfforddiant (ffurfiol a/neu anffurfiol)
- Cyfleoedd i gymdeithasu
- Paned a chacen yn ystod pob sesiwn gwirfoddoli
- Ad-daliad costau teithio

## Bydd croeso mawr i chi!

**Awydd ymuno â'r tim?** Cysylltwch â ni!
**Ebostiwch** yr.ysgwrn@eryri.llyw.cymru
**Ffoniwch** 01766 772 508

MANTELL GWYNEDD

23 – 29/06 Wythnos Lles Y Byd
World Well-being Week

# IECHYD DA'R HA'

## 25.06.25 11 - 3

Neuadd y Farchnad, Caernarfon LL55 1RR

amrywiol stondinau
gwybodaeth
rhoddion
sgrinio iechyd
a dysgu mwy am sut i wella'ch
IECHYD & LLESIANT ar ddechrau'r ha'

Am ddim
free entry

Health & well-being event

various stalls
information
freebies
health screening
and discover ways to enhance
your HEALTH & WELLBEING this summer



sioned.roberts@mantellgwynedd.com
01286 672626

Gall MUDIADAU 3ydd SECTOR a phartneriaid gofrestru am stondin/ 3rd sector groups & partners can register for a stall by: 20.06.25

# IECHYD A LLESIANT









# DIGWYDDIADAU

## DIGWYDDIADAU
## CWRDD Â CHYLLIDWYR

***Dysgwch fwy am gyfleoedd ariannu a chael cyfle i ofyn cwestiynau!***



**Tŷ Cerdd - Grantiau'r Loteri**
Dydd Llun 14/04/2025 14:30 - 15:30
Ar-lein

**The Clothworkers Foundation**
Dydd Mercher 07/05/2025 15:30 - 16:30
Ar-lein

**The Neumark Foundation**
Dydd Mawrth 10/06/2025 16:00 - 17:00
Ar-lein



**Gweithdy Easyfundraising**
Dydd Mawrth 09/09/2025 10:00 - 11:00
Ar-lein

**Sports Wales Grants**
Dyddiad ac amser i'w cadarnhau
Ar-lein


MANTELL GWYNEDD

***Cofrestru yn hanfodol.***
**01286 672 626**
**ymholiadau@mantellgwynedd.com**

# CRONFA GRANT SECTOR GWIRFODDOL



MANTELL GWYNEDD
CANOLFAN GWIRFODDOLI • VOLUNTEER CENTRE



## CRONFA SECTOR WIRFODDOL GWYNEDD

**Mae Mantell Gwynedd yn falch o gyhoeddi fod £650k wedi ei glustnodi ar ein cyfer er mwyn ei rannu ymysg grwpiau gwirfoddol a chymunedol yng Ngwynedd.**

**Bydd grantiau refeniw a chyfalaf ar gael rhwng 2k a 100k i gefnogi prosiectau fydd yn arwain at wella safon bywyd trigolion a chymunedau Gwynedd.**

**Mae Cronfa Sector Wirfoddol Mantell Gwynedd nawr ar agor.**

**Dyddiad cau i geisiadau: 15fed Mehefin 2025**

**SwyddogGrantiau@mantellgwynedd.com**

**01286 672626**

**Cronfa Ffyniant Cyffredin**

Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

CYNGOR GWYNEDD

# CIST GWYNEDD

CYNGOR GWYNEDD

## CRONFA CEFNOGI CYMUNEDAU

Cyfle i grwpiau cymunedol a gwirfoddol ymgeisio am gefnogaeth ariannol

**Cyfalaf a Refeniw hyd at £10,000**

## CRONFA'R DEGWM

Cyfle i Elusennau Cofrestredig ymgeisio am grantiau **hyd at £3,000**

**Dyddiad Cau: Mehefin 15fed, 2025**



Cistgwynedd@gwynedd.llyw.cymru

01286 679870

**PECYNNAU YMGEISIO AR GAEL AR EIN GWEFAN**

WWW.GWYNEDD.LLYW.CYMRU/GRANTIAUCISTGWYNEDD

# GWYBODAETH

## Gwefannau Bro Gwynedd

www.bro.360.cymru

Mae gan Gwmni Golwg bum gwefan fro yng Ngwynedd: BangorFelin360, Ogwen360, DyffrynNantlle360, BroWyddfa360 a Caernarfon360.

Llwyfannau ydyn nhw i bobl rannu straeon, ac hefyd hysbysebu digwyddiadau ar y calendr lleol. Bydd pob stori a digwyddiad yn cael ei rannu'n lleol a chenedlaethol, felly maent yn cyrraedd cynulleidfa eang. Felly, os ydych yn byw o fewn ffiniau unrhyw un o'r gwefannau uchod, ewch ati i gyflwyno.

Maent yn adnodd **rhad ac am ddim!**

Yn wahanol i bapurau bro, y 'bobl' eu hunain sy'n cyflwyno ar y gwefannau.
Gan ei bod yn **Wythnos Gwirfoddolwyr** 2 – 8 Mehefin, beth am fynd ati i rannu straeon eich prosiectau chi ar eich gwefan leol? Mae pobl yn hoffi darllen a gweld newyddion da.
Rydym yn ymwybodol fod pawb yn brysur ac amser yn brin. Felly os nad oes gennych amser i sgwennu llith, byddai cyfres o luniau neu fideo gydag ambell i frawddeg yn cael eu croesawu.

Dyma enghraifft o sut mae mynd ati gan ddefnyddio Caernarfon360 fel esiampl.
Ewch i Caernarfon360. (yr un yw'r drefn efo pob gwefan)

Pwyso 'YMUNO', llenwi'r bylchau a chadarnhau'r cyfrinair. Dim ond unwaith mae angen ymuno, mewngofnodi yn unig fydd angen wedyn. Dau funud mae'n gymryd.
Unwaith y byddwch wedi ymuno, yna pwyso CREU a dewis STORI os am gyflwyno stori, a phwyso CREU ac yna DIGWYDDIAD os am hysbysebu digwyddiad.

Mae croeso i chi gysylltu os am dderbyn mwy o wybodaeth.
bethandobson@golwg.cymru

